

Darllen ei ewylllys

“Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd;
yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun.” (adn. 27)

Beth am ddarllen Ioan 14:15–31 ac yna myfyrio

Thema'r rhifyn yma ydy 'Etifeddiaeth Crist', hynny yw, y pethau gwerthfawr hynny adawodd Crist i ni cyn ymadael â'r byd yma 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Fel arfer, mae ewylllys olaf unrhyw un yn golygu gadael eu holl gyfoeth a'u heiddo i'w dosbarthu yn ôl eu dymuniad. Ond adawodd Iesu ddim eiddo materol, na chyfrif banc, na thŷ neu dir. Roedd ei etifeddiaeth o fath cwbl wahanol. Yn ystod y deufis nesaf yma, wrth i ni ddarllen ei ewylllys, fel petai, gobeithio y byddwn ni, gyda'n gilydd, yn gwerthfawrogi'n llawnach ein hetifeddiaeth yng Nghrist.

Prifrodd Crist oedd ei dangnefedd. *Shalom* (yr enw Hebraeg am 'dangnefedd') oedd y gair ddefnyddiai'r Iddewon fel arfer i gyfarch neu ffarwelio â rhywun, ac mae'n siŵr mai mater o ffurf yn unig ydoedd bellach. Ond mae Iesu'n rhoi ystyr newydd iddo. Mae tangnefedd Crist yn wahanol i unrhyw beth y gall y byd ei gynnig, o ran math ac yn y ffordd mae'n cael ei roi. Dydy e ddim yn dibynnu ar amgylchiadau allanol neu ddiffyg gwrthdaro. Yn wir, mae'n ffynnu ynghanol helbulon. Fel y dywedodd Dr W.E. Sangster: “Galilea a Chalfaria mewn tywyllwch oedd y sbardun”. Roedd tawelwch Crist yn deillio o'i hyder yn naioni ei Dad, o'i ymddiriedaeth ym mhenarglwyddiaeth ei Dad, ac o'i ymostyngiad i ewylllys ei Dad. Dydy Iesu ddim yn rhoi rhyw fath o gyffur i dwyllo'r galon i fod yn ddibryder. Dyma dangnefedd y Meseia, *shalom* teyrnas Dduw, sy'n cael ei sefydlu yng nghanol anghydfod. Dyma'r tangnefedd adawodd Iesu fel rhodd i'w ddisgyblion anghenus wrth iddo ymadael â'r byd, er mwyn chwalu eu hofnau.

Does neb wedi dangos tangnefedd tebyg i Iesu yng nghanol helbulon. Doedd tangnefedd Iesu ddim yn mynd i'r gwellt. A gall yr un tangnefedd hwnnw fod yn eiddo i chi, ond dim ond os byddwch yn agored i'w dderbyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Num. 6:22–27; Salm 85:1–13; 2 Thes. 3:16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd addewid Duw yn y fendith offeiriadol?
2. Am beth mae Paul yn gweddiö?

Gweddi

Dad nefol, mi wn fod tangnefedd ar gael. Helpa fi i f'agor fy hun i'w lif. Dw i'n dyheu i ddyfnderoedd f'enaid gael eu cynnal â thangnefedd. Hwyrach y bydd yr wyneb yn aflonydd ond y dyfnderoedd sy'n bwysig. Helpa fi i fod yn sicr yno, annwyl Dad. Amen.